# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 6 Gorffennaf 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(12)

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 3 a 6 gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**14.18**
**2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol**

Gofynnwyd y 7 cwestiwn.

**14.39**
**3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad**

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 1, 3 a 7 eu grwpio. Cafodd cwestiynau 1, 3, 4, 5, 7 a 10 eu hateb gan Rhodri Glyn Thomas. Cafodd cwestiwn 2 ei ateb gan Angela Burns. Cafodd cwestiwn 6 ei ateb gan Peter Black. Cafodd cwestiwn 9 ei ateb gan Sandy Mewies. Tynnwyd cwestiynau 8 ac 11 yn ôl.

**15.05**
**4. Cynnig o dan adran 17(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn cysylltiad ag anghymhwyso Aled Roberts**

**NNDM4724 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn gweithredu o dan adran 17(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

1. Yn nodi bod Aled Roberts, pan gafodd ei ethol yn yr etholiad a gynhaliwyd ar 5 Mai 2011 fel Aelod Cynulliad dros ranbarth etholiadol Gogledd Cymru, yn aelod o Dribiwnlys Prisio Cymru, a'i fod felly wedi ei anghymwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad o dan adran 16(1) o'r Ddeddf ac Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010;

2. Hefyd yn nodi bod y sail ar gyfer anghymwyso nawr wedi'i diddymu;

3. Yn cytuno ei bod yn iawn fod y Cynulliad yn arfer ei bwerau o dan adran 17(3); a

4. Felly yn penderfynu bod gwaharddiad Aled Roberts rhag bod yn Aelod Cynulliad, ar sail yr hyn a nodir ym mharagraff 1, yn cael ei ddiystyru.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 3 | 20 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**5. Cynnig o dan adran 17(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn cysylltiad ag anghymhwyso John Dixon - TYNNWYD YN ÔL**

**15.54**
**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**NDM4778 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ryddhau potensial llawn Cymdeithas Fawr Cymru, gan gydnabod bod y Wladwriaeth a Chymdeithas yn wahanol a bod angen y naill a'r llall arnom.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio .**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 42 | 54 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

**17.06**
**7. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**NDM4779 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Sicrhau bod y system gynllunio yn rhoi cyfran i gymunedau mewn datblygu economaidd a chymdeithasol;

b) Diogelu gwasanaethau cyhoeddus mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol gwledig;

c) Diogelu dyfodol ffermydd teulu; a

d) Rhoi'r cyfle i gymunedau reoli asedau cymunedol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd is-bwynt c):

'a gwella llwyddiant ffermio teuluol drwy ddiwygio Glastir a diwygio cyfyngiadau cynllunio ar ffermwyr sy'n dymuno newid adeiladau segur ar eu tir yn gyfleusterau masnachol.'

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu is-bwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Grymuso cymunedau drwy gyflwyno Bil Hawliau Cymunedol

Amddiffyn cymunedau lleol drwy gefnogi busnesau lleol a mynnu bod asesiad effaith yn cael ei gynnal ar gyfer datblygiadau manwerthu ar gyrion trefi yn ystod y broses gynllunio.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i gydnabod pwysigrwydd taliadau cymhorthdal y Polisi Amaethyddol Cyffredin i ffermydd teulu yng Nghymru yn ogystal â'r economi wledig ehangach, a drwy wneud hynny, parhau â dull gweithredu Llywodraeth flaenorol Cymru drwy roi sylwadau cryf i Lywodraeth y DU i wrthdroi ei galwad am "doriad sylweddol iawn i'r Gyllideb Polisi Amaethyddol Cyffredin yn ystod y Fframwaith Ariannol nesaf".

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4779 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Sicrhau bod y system gynllunio yn rhoi cyfran i gymunedau mewn datblygu economaidd a chymdeithasol;

b) Diogelu gwasanaethau cyhoeddus mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol gwledig;

c) Diogelu dyfodol ffermydd teulu; a

d) Rhoi'r cyfle i gymunedau reoli asedau cymunedol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 11 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**17.52**
**8. Dadl Plaid Cymru**

**NDM4777 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod y cyfrifoldeb dros benderfynu ar brosiectau ynni yng Nghymru sydd dros 50 megawatt ac unrhyw seilwaith cysylltiedig yn cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i gyflwyno'r achos gerbron Llywodraeth y DU dros ddatganoli pwer dros brosiectau ynni hyd at 100MW; ac

2. Yn gresynu wrth y dryswch a fu yn sgil Datganiad Ysgrifenedig y Prif Weinidog ar 17 Mehefin ac yn credu mai dim ond drwy gynnal adolygiad cyhoeddus trwyadl o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8: Ynni Adnewyddadwy (2005) y bydd modd rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol a rhoi hwb i hyder y sector ynni adnewyddadwy.

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r holl dystiolaeth ac adroddiadau y mae wedi'u cynhyrchu yng nghyswllt datganoli prosiectau ynni dros 50MW.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4777 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod y cyfrifoldeb dros benderfynu ar brosiectau ynni yng Nghymru sydd dros 50 megawatt ac unrhyw seilwaith cysylltiedig yn cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 12 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**18.40**
**Cyfnod pleidleisio**

Daeth y cyfarfod i ben am 18.42.

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 on Dydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2011**